ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Trefniadau asesu ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir









# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **3** |
| **Diben asesu** | **5** |
| Gwneud cynnydd | 6 |
| Adnabod cynnydd plant: egwyddorion cynnydd | 7 |
| Datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd | 11 |
| **Asesu** | **15** |
| Rôl arsylwi mewn asesiadau cychwynnol a pharhaus | 17 |
| Trefniadau ar gyfer asesu cychwynnol | 24 |
| Asesu lles: datblygiad cymdeithasol ac emosiynol | 27 |
| Asesu lles: datblygiad corfforol | 29 |
| Asesu sgiliau a galluoedd llythrennedd plant | 32 |
| Asesu sgiliau a galluoedd rhifedd plant | 38 |
| Pwyntiau allweddol i'w hystyried wrth gynnal asesu cychwynnol | 42 |
| **Geirfa** | **43** |

# Cyflwyniad

Datblygwyd y trefniadau asesu hyn ar y cyd gan ymarferwyr, ar gyfer ymarferwyr. Maen nhw wedi'u llunio o safbwynt yr ymarferydd, gan fanteisio ar arbenigedd o bob rhan o'n sector nas cynhelir, ynghyd â safbwyntiau arbenigwyr ym maes datblygiad plant ac addysg gynnar. Bwriedir iddyn nhw gael eu defnyddio ar y cyd â'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir.

Datblygwyd y trefniadau hyn i ystyried anghenion pob dysgwr a chydnabod y bydd hunaniaeth, iaith, gallu, cefndir a dysgu blaenorol pob dysgwr, yn ogystal â'r cymorth y gall fod ei angen arno, yn amrywio yn ôl ei amgylchiadau penodol.

Mae'r trefniadau hyn yn cydnabod bod pob plentyn yn unigryw ac y gall ddatblygu'n gyflym o adeg ei eni hyd at 5 oed. Maen nhw'n cefnogi datblygiad holistaidd drwy sicrhau bod anghenion pob plentyn yn rhan flaenllaw o ymarfer addysgegol. Mae'r trefniadau hyn yn cefnogi'r broses o asesu cynnydd plant ar ddechrau'r continwwm dysgu 3 i 16 oed, er mwyn rhoi'r dechrau gorau posibl iddyn nhw ar eu taith ddysgu.

Mae'r trefniadau hyn yn amlinellu egwyddorion a dibenion allweddol asesu, gyda'r nod o gefnogi cynnydd y plentyn unigol. Maen nhw'n rhoi cyfeiriad clir ar gyfer trefniadau asesu yn y dyfodol, gan gynnwys prosesau allweddol fel:

- meithrin dealltwriaeth gyffredin o gynnydd
- cyfnodau pontio ar hyd y continwwm 3 i 16 oed
- cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni a gofalwyr





Dylen ni ddefnyddio'r trefniadau hyn, ynghyd â'n gwybodaeth a'n profiad, i adlewyrchu anghenion unigol y plant yn ein lleoliad ac ymateb iddyn nhw. Dylen ni weithio gyda rhwydweithiau proffesiynol perthnasol i gefnogi dysgu a datblygiad proffesiynol parhaus. Dylen ni chwilio am gyfleoedd i rannu gwybodaeth, sgiliau ac arbenigedd â'n partneriaid yn y sector a gynhelir a'r sector nas cynhelir.

Dylen ni weithio gyda'n holl bartneriaid perthnasol i ddefnyddio'r trefniadau hyn i gefnogi gwaith cynllunio yn ein lleoliad. Mae cynllunio effeithiol yn ein galluogi i wneud y defnydd gorau o amgylchedd ein lleoliad a'r profiadau rydyn ni'n eu cynnig. Mae hyn yn ein helpu i ddatblygu amgylcheddau dysgu priodol sy'n ymateb i ddiddordebau plant ac yn ennyn eu diddordeb ymhellach yn eu dysgu a'u datblygiad.

Mae'n hanfodol ein bod ni'n defnyddio'r ddogfen hon yn ei chyfanrwydd, ochr yn ochr â'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir, er mwyn ein helpu i gynllunio ar gyfer cynnydd plant.

# Diben asesu

Mae asesu yn hanfodol i'n galluogi i gefnogi plant i wneud cynnydd ar gyflymder sy'n briodol iddyn nhw, gan sicrhau eu bod nhw'n cael eu cefnogi a'u herio yn unol â hynny. Dylai helpu i greu darlun holistaidd o'r plentyn – ei gryfderau, y ffyrdd y mae'n dysgu a'i feysydd i'w datblygu – er mwyn llywio'r camau dysgu ac addysgu nesaf. Ni ddylid defnyddio asesu i lunio barn untro am gyflawniad cyffredinol plentyn ar oedran neu adeg benodol yn erbyn disgrifyddion neu feini prawf ar sail ffit orau.

Mae asesu yn chwarae 3 prif ran yn y broses o alluogi cynnydd plant. Mae'n rhoi gwybodaeth i ni er mwyn i ni allu:

- cefnogi plant unigol yn barhaus o ddydd i ddydd
- nodi, cofnodi a myfyrio ar gynnydd plant unigol dros amser
- deall cynnydd **grwpiau gwahanol o blant** er mwyn myfyrio ar ymarfer



## Gwneud cynnydd

Mae helpu plant i wneud cynnydd wrth wraidd y cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir. Dylen ni ddefnyddio'r pum llwybr datblygu – perthyn, cyfathrebu, archwilio, datblygiad corfforol a lles – i gynllunio profiadau dysgu sy'n cefnogi plant i wneud cynnydd. Dylen ni gynnig cyfleoedd i blant feithrin sgiliau trawsgwricwlaidd (llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol) a chymhwyso'r sgiliau hyn mewn cyd-destunau sy'n ystyrlon iddyn nhw. Wrth gynllunio ar gyfer, ac asesu, cynnydd plant, dylen ni hefyd ystyried nodweddion pedwar diben Cwricwlwm i Gymru a'u defnyddio mewn ffordd sy'n briodol i ddatblygiad plant. Dylen ni sicrhau bod ein hasesiadau yn bwrpasol a'u bod nhw'n cefnogi lles a chynnydd plant.

Mae cynnydd wrth ddysgu yn cyfeirio at y broses sy'n galluogi i sgiliau a gwybodaeth plant ddatblygu a gwella dros amser. Rydyn ni'n gwybod bod cynnydd yn unigryw i bob plentyn a'i fod yn aml yn gysylltiedig â lles a chyfranogiad da, ac **agweddau at ddysgu** sy'n gadarnhaol. Gan fod pob plentyn yn datblygu ar ei gyflymder ei hun, dylen ni ganiatáu ar gyfer amrywiaeth o wyriadau, seibiannau a neidiau ar hyd ei daith ddysgu. Dylai ein dealltwriaeth o'r ffordd y mae plant yn gwneud cynnydd lywio ein trefniadau asesu fel rhan o'n gwaith cynllunio a'n hymarfer. Wrth gynllunio, dylen ni ganiatáu amser, lle a rhyddid i'r plentyn sy'n datblygu atgyfnerthu'r hyn y mae'n ei ddysgu drwy gyfleoedd i ailystyried ei wybodaeth a'i sgiliau newydd, a'u mireinio, o fewn y pum llwybr datblygu ac ar eu traws. Dylai'r dull pwyllog hwn roi sylfeini cadarn i blant ddysgu, yn awr ac yn y dyfodol, wrth iddyn nhw feistroli sgiliau a chysylltu gwybodaeth ar draws eu profiadau dysgu.




## Adnabod cynnydd plant: egwyddorion cynnydd

Mae pum egwyddor cynnydd gorfodol yn disgrifio taith ddysgu pob plentyn 3 i 16 oed. Mae'r egwyddorion cynnydd hyn yn rhai cydgysylltiedig; maen nhw'n ein galluogi i ddeall ar ba gam y mae plant ar eu taith ddysgu a sut y gallwn ni eu cefnogi i wneud cynnydd. Gallwn ni arsylwi cynnydd plant pan fyddwn ni'n sylwi eu bod nhw'n dangos mwy o ehanger a dyfnder o ran eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth, eu sgiliau a'u **galluoedd**, wrth iddyn nhw fagu hyder a dod yn fwy annibynnol. Wrth i blant wneud cynnydd, maen nhw'n dechrau creu cysylltiadau ym mhob rhan o'u dysgu a'u datblygiad mewn cyd-destunau cyfarwydd a newydd, gan eu galluogi i wireddu pedwar diben y cwricwlwm ar draws y pum llwybr datblygu.

Mae'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir yn seiliedig ar bum egwyddor cynnydd, sef:

- Effeithiolrwydd cynyddol
- Ehangder a dyfnder gwybodaeth cynyddol
- Dyfnhau'r ddealltwriaeth o fewn y llwybrau datblygu
- Mireinio a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth ddefnyddio a chymhwyso sgiliau
- Creu cysylltiadau a throsglwyddo'r dysgu i gyd-destunau newydd





Caiff cynnydd plant ei gefnogi pan fydd oedolion sy'n galluogi dysgu yn cynllunio profiadau sy'n ennyn diddordeb ac amgylcheddau effeithiol. Wrth arsylwi plant, dylen ni ddefnyddio egwyddorion cynnydd ochr yn ochr â'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir er mwyn:

- deall sut beth yw cynnydd o fewn y pum llwybr datblygu ac ar eu traws
- cynllunio profiadau dysgu sy'n ddatblygiadol a diwylliannol briodol i gefnogi pob plentyn i wneud cynnydd
- meithrin dealltwriaeth o les a dysgu plant
- meithrin dealltwriaeth gyffredin o gynnydd

## Cymhwyso egwyddorion cynnydd ar gyfer plant 3 a 4 oed

Mae'r testun isod yn dangos sut y dylen ni gymhwyso'r egwyddorion cynnydd mewn ffyrdd sy'n ddatblygiadol briodol er mwyn ein helpu i asesu dysgu a chynnydd plant 3 a 4 oed. Gallwn ni hefyd ddefnyddio'r enghreifftiau hyn gyda phlant iau a phlant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

**Beth y gallai effeithiolrwydd cynyddol ei olygu i blant 3 a 4 oed**

Mae plant yn dod yn ddysgwyr cynyddol hyderus, medrus ac annibynnol. Maen nhw'n dangos lefelau cynyddol o ddiddordeb a brwdfrydedd wrth chwarae'n chwilfrydig. Maen nhw'n cyfathrebu'n fwy effeithiol ac yn meithrin eu sgiliau talu sylw a gwrando mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Gydag amser a chefnogaeth, maen nhw'n meithrin gwydnwch emosiynol ac yn datblygu cydberthnasau i fynegi a chydnabod eu teimladau nhw eu hunain a theimladau pobl eraill.

**Beth y gallai ehangder a dyfnder gwybodaeth cynyddol ei olygu i blant 3 a 4 oed**

Mae plant yn dechrau archwilio amrywiaeth o gysyniadau. Maen nhw'n meithrin eu dealltwriaeth newydd drwy ddull profi a methu. Maen nhw'n dechrau creu cysylltiadau ar draws eu dysgu, a meddwl a gweithredu'n fwy effeithlon. Maen nhw'n dilyn eu diddordebau, eu syniadau a'u sgemâu eu hunain er mwyn gwneud synnwyr o'r byd o'u cwmpas ac ehangu ac atgyfnerthu eu dealltwriaeth.

**Beth y gallai dyfnhau'r ddealltwriaeth o fewn y llwybrau datblygu ei olygu i blant 3 a 4 oed**

Mae plant yn meithrin gwybodaeth a sgiliau dwfn ac eang o fewn y pum llwybr datblygu ac ar eu traws. Maen nhw'n dangos lefelau cynyddol o frwdfrydedd a diddordeb mewn amrywiaeth eang o brofiadau dilys priodol. Maen nhw'n dechrau dangos rhai o nodweddion pedwar diben Cwricwlwm i Gymru wrth chwarae ac archwilio.

## Beth y gallai mireinio a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth ddefnyddio a chymhwyso sgiliau ei olygu i blant 3 a 4 oed

Mae plant yn manteisio ar yr amser a'r cyfle i archwilio, mireinio ac atgyfnerthu eu sgiliau datrys problemau, cyfathrebu, corfforol a chymdeithasol yn ystod profiadau dysgu sy'n seiliedig ar chwarae dilys. Mae plant yn dangos eu dealltwriaeth o gysyniadau mewn amrywiaeth o gyd-destunau cyfarwydd a newydd. Maen nhw'n cyfleu eu syniadau drwy weithredoedd, ystumiau a geiriau.

## Beth y gallai creu cysylltiadau a throsglwyddo'r dysgu i gyd-destunau newydd ei olygu i blant 3 a 4 oed

Mae plant yn dechrau creu cysylltiadau drwy archwilio'r byd o'u cwmpas. Maen nhw'n meithrin eu **ffyrdd newydd o feddwl** drwy ddilyn eu **diddordebau arbennig** a'r hyn sy'n ennyn eu chwilfrydedd. Maen nhw'n dechrau gwneud dewisiadau a phenderfyniadau mewn cyd-destunau chwarae cyfarwydd. Wrth iddyn nhw ddod yn fwy hyderus ac annibynnol, maen nhw'n dechrau cymhwyso eu sgiliau a'u gwybodaeth at gyd-destunau anghyfarwydd. Dros amser, a chyda chefnogaeth, maen nhw'n gwneud addasiadau angenrheidiol i ateb heriau a manteisio ar gyfleoedd mewn sefyllfaoedd newydd.

## Datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd

Cyfeirir at unrhyw drafodaeth rhwng ymarferwyr sy’n eu galluogi nhw i rannu eu profiadau a myfyrio arnyn nhw er mwyn meithrin a chynnal dealltwriaeth gyffredin o gynnydd fel **deialog broffesiynol**. Mae’r rhai sy’n rhan o drafodaeth o’r fath yn cyfrannu ar sail gyfartal.

Mae meithrin a chynnal dealltwriaeth gyffredin o gynnydd yn golygu ein bod ni’n mynd ati ar y cyd i archwilio, trafod a deall pa mor dda y mae plant yn dysgu ac yn datblygu. Rydyn ni’n manteisio ar y cyfleoedd hyn i ystyried y pum egwyddor cynnydd, y pum llwybr datblygu a threfniadau asesu cychwynnol. (Pan fo’r canllawiau hyn yn cyfeirio at asesu cychwynnol mae’n golygu’r asesu dechreuol y mae rheoliad 6 o Reoliadau Addysg (Trefniadau ar gyfer Asesu yn y Cwricwlwm i Gymru) 2022 yn eu gwneud yn ofynnol.)

Rhaid i ganlyniadau deialog broffesiynol lywio ein dysgu a’n haddysgu. Dylen ni fod yn glir ynghylch y cynnydd y mae plant yn ei wneud yn ystod eu cyfnod gyda ni. Mae trafodaethau â rhieni a gofalwyr yn helpu i feithrin dealltwriaeth ddyfnach o ddatblygiad holistaidd plentyn. Mae’r trafodaethau hyn yn ein helpu i werthuso a yw ein disgwyliadau ar gyfer plant yn ymarferol ac yn ddigon heriol, ac a all fod angen unrhyw gyngor neu gymorth allanol. Pan fyddwn ni’n sylwi ar rywbeth sy’n ddiddorol neu’n werth ei nodi am blentyn, efallai y byddwn ni’n dewis ei rannu ag ymarferwyr eraill neu rieni a gofalwyr y plentyn, er mwyn ein helpu i ystyried y cynnydd y mae’n ei wneud. Mae’r sgyrsiau gwerthfawr hyn yn ein helpu i ddysgu mwy am y ffordd y mae plant yn datblygu a’r hyn y gallwn ni ei wneud i’w cefnogi.





Rydyn ni'n cydnabod bod trafodaeth yn adnodd dysgu proffesiynol pwerus sy'n ein helpu i wneud penderfyniadau am yr hyn rydyn ni'n ei wneud yn ein lleoliad ein hunain. Yn dibynnu ar faint ein lleoliad, gall hyn olygu cymorth gan gyfoedion, cyfarfodydd tîm neu gyfarfodydd i'r holl staff, a/neu gyfarfodydd ag unrhyw bartneriaid perthnasol. Drwy gynnal trafodaethau â lleoliadau ac ysgolion eraill, dylen ni allu sicrhau dealltwriaeth a disgwyliadau cyson ym mhob rhan o'r sector. Gallai hyn fod drwy gydberthnasau sy'n bodoli eisoes, mynychu sesiynau rhwydweithio a/neu feithrin cysylltiadau newydd. Dylai ymgorffori deialog broffesiynol fod yn broses barhaus, a dylai fod yr un mor bwysig i bawb.

Gall meithrin dealltwriaeth gyffredin rhwng lleoliadau ac ysgolion gefnogi cyfnodau pontio didrafferth, sy'n bwysig i sicrhau parhâd cynnydd. Drwy gynnal sgyrsiau ystyrlon â rhieni, gofalwyr ac ysgolion a lleoliadau eraill, dylen ni fod mewn sefyllfa well i gynnig profiad cadarnhaol o bontio i bob plentyn.

## Beth yw manteision deialog broffesiynol i gefnogi ein dealltwriaeth gyffredin o gynnydd?

- Rydyn ni'n meithrin dealltwriaeth ddyfnach o ddatblygiad holistaidd plentyn.
- Rydyn ni'n meithrin ein dealltwriaeth ein hunain o ddatblygiad plant a'r ffordd y mae plant yn dysgu.
- Rydyn ni'n gwerthfawrogi'r ffordd y mae plant yn dysgu a'r angen iddyn nhw ailedrych ar brofiadau.
- Mae gennym ni ddisgwyliadau ymarferol o blant a gallwn ni sicrhau eu bod nhw'n cael eu herio'n ddigonol.
- Gallwn ni nodi a oes angen cyngor a chymorth allanol.
- Mae ein dealltwriaeth o gynnydd plant yn ein helpu i gynllunio'n effeithiol i ddiwallu eu hanghenion.
- Gallwn ni ddefnyddio ein myfyrdodau i lywio ein rhyngweithio a'n gwaith o gynllunio profiadau sy'n ennyn diddordeb ac amgylcheddau effeithiol.
- Gall ein myfyrdodau lywio'r broses hunanwerthuso a gwella ymarfer.
- Bydd ein dealltwriaeth o gynnydd yn cefnogi cyfnodau pontio llwyddiannus a didrafferth rhwng lleoliadau ac ysgolion.
- Drwy weithio gydag eraill, cawn gyfle i gymharu a datblygu ymarfer ar draws lleoliadau ac ysgolion, a fydd yn sicrhau darpariaeth deg i alluogi pob plentyn i wneud cynnydd.
- Mae ein disgwyliadau o gynnydd plant yn datblygu drwy drafodaethau â lleoliadau ac ysgolion eraill.

## Cwestiynau myfyriol

- Sut ydyn ni'n sicrhau ein bod ni'n meithrin partneriaethau da ag ysgolion a lleoliadau eraill er mwyn helpu i feithrin dealltwriaeth gyffredin o gynnydd?
- Sut mae ein hasesiadau arsylwadol yn effeithio ar ein haddysgeg ac ar gynnydd plant?



## Cynnwys rhieni, gofalwyr a phlant i gefnogi cynnydd

Dylen ni weithio gyda'n gilydd i gefnogi plant i ddysgu, datblygu a gwneud cynnydd, yn ein lleoliad a'r tu allan iddo, drwy feithrin cydberthnasau cadarnhaol â rhieni a gofalwyr a chael sgyrsiau ystyrlon â nhw. Gallwn ni rannu gwybodaeth am:


- les y plentyn
- y cynnydd y mae'r plentyn yn ei wneud
- sut y byddwn ni'n cefnogi cynnydd
- sut y gellir cefnogi cynnydd gartref

Dylen ni wneud hyn yn rheolaidd er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ymgysylltu â rhieni a gofalwyr. Mae'n bwysig bod yr wybodaeth rydyn ni'n ei rhannu yn hawdd ei deall, yn glir ac nad yw'n cynnwys jargon. Gellir rhannu'r wybodaeth hon ar lafar, drwy lwyfannau digidol, wyneb yn wyneb a/neu ar ffurf ysgrifenedig.

# Asesu

Mae'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir yn ein hannog i sicrhau bod plant yn dysgu ar eu cyflymder eu hunain ac yn yr amgylchedd dysgu a ffefrir ganddyn nhw. Dylen ni asesu datblygiad emosiynol, cymdeithasol, gwybyddol a chorfforol plant o fewn y pum llwybr datblygu ac ar eu traws. Mae'r cwricwlwm hwn yn ein hatgoffa y dylai asesu fod yn fwy nag ymarfer rhestr wirio neu ddigwyddiad untro, ac y dylai fod yn rhan annatod o addysgu a dysgu. Dylai asesu effeithiol ein helpu i adnabod plant y gall fod angen cymorth neu her ychwanegol arnyn nhw. Gall y temtasiwn i ni ruthro drwy sgiliau, gwybodaeth a phrofiadau gael effaith andwyol ar ddysgu a datblygiad. Dylen ni ddefnyddio egwyddorion cynnydd i fyfyrio ar gynnydd unigol plant a rhoi amser iddyn nhw atgyfnerthu ac ehangu eu dealltwriaeth a'u dysgu. Dylen ni ganolbwyntio ar anghenion presennol y plentyn yn hytrach na'r rhai hynny a allai ddod i'r amlwg dros y blynyddoedd nesaf.

Mae dibynadwyedd ein hasesiadau yn dibynnu ar ansawdd ein rhyngweithio â'r plant a'r profiadau a'r amgylcheddau dysgu rydyn ni'n eu creu ar eu cyfer. Dylai asesiadau fod yn bwrpasol, yn hydrin ac yn gymesur i anghenion plant unigol. Dylai trefniadau asesu fod yn hyblyg, gan ganiatáu ar gyfer cynnydd amrywiol ac unigryw pob plentyn unigol. Dylen ni ddefnyddio ein hasesiadau parhaus i gofnodi'r ffordd y mae plant yn datblygu ac yn dysgu.





Dylid asesu plant 3 a 4 oed fel mater o drefn drwy eu harsylwi; gall ddigwydd mewn eiliad neu dros gyfnod hwy fel rhan o'n hymarfer o ddydd i ddydd, a dylai'r asesu hwn lywio ein gwaith cynllunio ar gyfer cynnydd plant.

Mae asesu yn cynnig gwybodaeth amhrisiadwy. Dylid defnyddio'r wybodaeth er mwyn:

- dathlu dysgu plant
- darparu gwybodaeth i gefnogi cynnydd plant, a all gynnwys atgyfnerthu, herio neu ailedrych ar ddysgu
- cynllunio ar gyfer dysgu ac addysgu, gan gynnwys unrhyw gymorth neu her ychwanegol sydd eu hangen er mwyn i bob plentyn wireddu ei botensial
- cynnwys rhieni a gofalwyr yn nysgu a datblygiad eu plentyn
- cyfathrebu â phartneriaid allweddol

## Rôl arsylwi mewn asesiadau cychwynnol a pharhaus

Diben asesu arsylwadol yw penderfynu ar ba gam y mae plant ar eu taith ddysgu. Mae arsylwi'n ein helpu i wybod beth sy'n cymell plant bach, yn ennyn a chynnal eu diddordeb. Mae'n ein helpu i gydnabod eu lefelau cyfranogi, eu cyflyrau emosiynol, pwy yw eu ffrindiau a pha wybodaeth, sgiliau a **chymwyseddau** sydd ganddyn nhw. Dylen ni ddefnyddio gwaith arsylwi i asesu gwybodaeth, sgiliau ac agweddau plant drwy gyfuniad o brofiadau a arweinir gan y plentyn ac a gefnogir gan yr ymarferydd. Dylai ein harsylwadau ein helpu i nodi cryfderau presennol plant, yr hyn y mae angen iddyn nhw ei gyflawni nesaf a'r hyn y mae angen iddyn nhw ei wneud er mwyn ei gyflawni, gan ystyried unrhyw rwystrau i ddysgu.

Dylen ni arsylwi plant gydol y dydd, y tu mewn a'r tu allan, wrth iddyn nhw chwarae'n unigol ac ar y cyd, ac fel rhan o arferion dyddiol cyfarwydd fel amser bwyd ac wrth ryngweithio â rhieni a gofalwyr. Mae'r cyd-destunau hyn yn ein helpu i greu darlun holistaidd o'r plentyn a'r ffordd y mae'n ymateb i amrywiaeth o sefyllfaoedd a phobl wahanol. Wrth arsylwi, dylen ni gofnodi cynnydd plant dros amser mewn perthynas â'r cwricwlwm a gynigir, gan gynnwys, ymhlith pethau eraill, lles plant (yn cynnwys **datblygiad cymdeithasol ac emosiynol**, a **datblygiad corfforol**), a'u sgiliau, eu gwybodaeth a'u galluoedd mewn perthynas â **llythrennedd** a **rhifedd**.

Mae nifer o ffyrdd y gallwn ni ddefnyddio ein harsylwadau i lywio ein gwaith cynllunio a'n helpu i ddeall dysgu a chynnydd plant dros amser. Mae'r rhain yn cynnwys:

- arsylwadau digymell ar rywbeth pwysig
- arsylwadau am gyfnod penodol o amser
- arsylwadau sy'n asesu cynnydd datblygiadol
- arsylwadau wedi'u cynllunio ar agweddau penodol ar ddysgu a datblygiad





## Arsylwadau ysgrifenedig

Fel rhan o'n trefniadau asesu, dylai arsylwadau ysgrifenedig fod yn bwrpasol ac yn hydrin ac ni ddylid eu defnyddio i gasglu tystiolaeth yn unig. Dylen ni bob amser gadw'r plentyn unigol mewn cof wrth ystyried beth sy'n bwysig ac yn werth ei gofnodi. Ni ddylai hyn fod yn broses rhy lafurus.

Gallwn ni ddewis o blith amrywiaeth eang o fformatau i'n helpu i nodi ac asesu dysgu a datblygiad plentyn, gan gynnwys:

- straeon dysgu
- naratifau byr
- proffil un dudalen
- cofnodlyfrau dysgu
- anodiadau byr
- apiau, llwyfannau neu feddalwedd ddigidol

Bydd adegau pan fydd angen i ni rannu gwybodaeth a cheisio cyngor proffesiynol ychwanegol ar sail ein dadansoddiad o'n harsylwadau dros gyfnod o amser. Gellir defnyddio ein harsylwadau i gefnogi'r trafodaethau hyn a/neu brosesau atgyfeirio ar gyfer plant sydd ag unrhyw anghenion ychwanegol. Yn yr achosion hyn, efallai y byddwn ni'n coladu ein harsylwadau ar ffurf fformat adroddiad gofynnol gan asiantaethau allanol.

## Defnyddio recordiadau fideo

Mae recordiadau fideo yn ffordd ddefnyddiol o'n helpu i asesu a gwerthuso dysgu a chynnydd plant unigol, a gellir eu defnyddio'n effeithiol i feithrin dealltwriaeth gyffredin o ddysgu a chynnydd yn ein lleoliad. Os byddwn ni'n dewis recordio, dylen ni sicrhau y caiff hynny ei wneud mewn modd sensitif fel nad yw'n tarfu ar chwarae'r plant.


Efallai y byddwn ni'n rhannu'r recordiadau â rheini, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill, gyda'r caniatâd perthnasol, pan fydd hynny'n briodol. Efallai y byddwn ni hefyd yn rhannu'r recordiadau â phlant er mwyn eu helpu i hunanfyfyrio a dathlu eu dysgu.

## Oedolion sy'n galluogi dysgu

Fel oedolion sy'n galluogi dysgu, dylai sgiliau meddwl plant wrth chwarae fod o ddiddordeb i ni, a dylen ni eu cefnogi. Dylai ein harsylwadau ein helpu i asesu dysgu yn effeithiol a chynllunio profiadau sy'n ennyn diddordeb ac amgylcheddau effeithiol a fydd yn cefnogi pob plentyn i wneud cynnydd. Bydd adegau pan fyddwn ni am gymryd cam yn ôl, er mwyn arsylwi a gwrando, gan adael i'r chwarae ddatblygu. Rydyn ni'n gwneud hyn gan ein bod ni'n cydnabod y gallai ein cyfraniad neu ein hymyrraeth fod yn ddigroeso a/neu darfu ar y chwarae. Bydd rhannu ein harsylwadau â chydweithwyr mewn amgylchedd diogel a chefnogol yn ein helpu i ddysgu oddi wrth ein gilydd, gan ddefnyddio ein cryfderau ein gilydd a chodi ymwybyddiaeth o unrhyw **ragfarn ddiarwybod** a all fod gennym ni, a'i herio.

Mae'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir yn esbonio sut beth yw proses arsylwi effeithiol, a sut y gall gefnogi'r broses asesu. Dylai'r broses gylchol o 'sylwi, dadansoddi ac ymateb' fod yn rhan annatod o'n penderfyniadau o ddydd i ddydd wrth ystyried a ddylid ymateb i ddysgu plant, pryd a sut. Fel oedolion sy'n galluogi dysgu, dylen ni sylwi ar ddysgu plant, ei ddadansoddi ac ymateb iddo mewn ffyrdd sy'n llywio ein hasesiadau o'r cynnydd y maen nhw'n ei wneud.







## Sylwi

Rydyn ni'n arsylwi er mwyn casglu gwybodaeth gyfoethog am ddatblygiad holistaidd plant. Dylen ni gadw mewn cof na ddylai arsylwi fod yn rhwystr i ryngweithio, ac na ddylai rhyngweithio fod yn rhwystr i sylwi. Gall arsylwadau fod yn ddigymell neu gael eu cynllunio. Dylen ni sylwi ar:

- yr hyn sydd o ddiddordeb i'r plant ac yn ennyn eu chwilfrydedd
- sut maen nhw'n defnyddio adnoddau a lle
- sut maen nhw'n cyfathrebu ac yn rhyngweithio ag eraill

Dylen ni sylwi ar hyder, gwydnwch, annibyniaeth a chymhwysedd plant, ac unrhyw newidiadau i'r rhain. Gall plant ymateb yn wahanol i rai ymarferwyr ac mewn sefyllfaoedd gwahanol. Dylen ni sicrhau ein bod ni'n mynd ati i arsylwi â meddwl agored a'n bod ni'n barod i rannu arsylwadau ag eraill er mwyn trafod yr hyn rydyn ni'n ei weld a'i glywed mewn modd gwrthrychol. Dylai'r trafodaethau proffesiynol hyn gynnig arsylwadau cynhwysfawr o blant unigol.





## Dadansoddi

Wrth i ni arsylwi, dylen ni ddehongli’r hyn rydyn ni’n ei weld a’i glywed a phenderfynu a yw’r arsylwad yn arwyddocaol ac, felly, yn werth ei nodi. Dylen ni ystyried a ydyn ni wedi dysgu rhywbeth newydd am y plentyn neu a yw wedi atgyfnerthu rhywbeth rydyn ni eisoes yn ei wybod.

Wrth i ni ddehongli’r hyn rydyn ni wedi ei weld a’i glywed, dylen ni ystyried yr hyn y gallai ei olygu ar gyfer plentyn penodol, mewn perthynas â’r canlynol:

- i ba raddau y mae’n meithrin gwybodaeth
- i ba raddau y mae ei sgiliau yn datblygu
- i ba raddau y mae’n datblygu cysyniadau
- y sgemâu neu’r dysgu sgematig y mae’n eu ffafrio
- ei agweddau at ddysgu mewn sefyllfaoedd gwahanol
- ei gynnydd neu unrhyw anawsterau y gall fod yn eu hwynebu

Wrth i ni fyfyrio ar y gwaith dadansoddi hwn, dylen ni ystyried ein gwybodaeth am ddatblygiad y plentyn, ei gefndir ieithyddol a diwylliannol, a’r cwricwlwm dan sylw. Bydd adegau pan fyddwn ni’n gweithredu ar ein harsylwadau yn syth wrth i ni sylwi ar **gyfleoedd dysgu digymell**. Yn yr achos hwn, efallai y byddwn ni’n defnyddio naratif i gyfleu i’r plentyn y dysgu sydd wedi digwydd.




## Ymateb

Yn seiliedig ar ein dadansoddiad o'n harsylwadau, gallwn ni wneud penderfyniadau am yr hyn i'w wneud nesaf er mwyn helpu'r plentyn i wneud cynnydd. Gall hyn gynnwys penderfyniadau ynghylch a ddylid rhyngweithio a/neu sut; a ddylid gwneud addasiadau i'r amgylchedd dysgu a sut i gyfoethogi profiadau ymhellach.

Dylen ni gydnabod pan fydd plant yn chwarae, y gallwn ni darfu ar eu sgiliau meddwl a datrys problemau os byddwn ni'n ymuno â'r chwarae neu'n rhyngweithio â nhw heb wahoddiad. Os byddwn ni'n penderfynu ymuno â'r chwarae neu ei gefnogi, neu'n cael ein gwahodd i wneud hynny, dylai wella ac ymestyn y dysgu drwy gyfleoedd dysgu digymell. Efallai y byddwn ni'n dewis modelu sgil, cynnig adnodd, cyflwyno geirfa, defnyddio cwestiynau agored i ysgogi'r meddwl, neu gymryd rhan mewn gwaith **cyd-feddwl parhaus** am rywbeth sydd o ddiddordeb i'r plentyn.

Wrth ystyried y broses o feithrin sgiliau a datblygu cysyniadau, dylen ni gynllunio cyfleoedd i blant fireinio, atgyfnerthu neu feistroli sgiliau a chysyniadau, gan atgoffa ein hunain nad oes rhaid i'r 'camau nesaf' fod yn llinol. Bydd rhoi amser i blant **ymgolli** yn eu dysgu yn ystod cyfnodau o chwarae di-dor yn eu helpu i atgyfnerthu a mireinio eu sgiliau meddwl a deall. Dylen ni fanteisio i'r eithaf ar ddiddordebau plant a'u diddordebau arbennig yn yr amgylchedd, ac achub ar gyfleoedd i'w cynnwys mewn ffordd ddilys yn eu dysgu.

## Crynodeb

| Dylai asesiad arsylwadol fod yn: | Ni ddylai asesiad arsylwadol fod yn: |
|---|---|
| • nodi'r hyn y gall plant ei wneud a'r ffordd y maen nhw'n dysgu<br>• helpu i greu darlun holistaidd o'r plentyn a deall y cynnydd y mae'n ei wneud dros amser<br>• rhan o ymarfer o ddydd i ddydd<br>• anymwthiol<br>• cynnwys dadansoddiad o'n harsylwadau<br>• llywio'r dysgu a'r addysgu<br>• ystyrlon ac yn ddefnyddiol<br>• bod yn gyfrifoldeb a rennir<br>• cynnwys safbwynt y plentyn a'i rieni neu ofalwyr | • canolbwyntio ar fylchau canfyddedig mewn dysgu<br>• categoreiddio neu labelu'r plentyn<br>• digwyddiad untro neu'n gyfres o dasgau<br>• tarfu ar ddysgu a chwarae dilys<br>• cael ei ddefnyddio fel mesur atebolrwydd ynddo'i hun<br>• annibynnol ar y dysgu a'r addysgu<br>• llafurus a chymryd llawer o amser<br>• mater i un oedolyn ar ei ben ei hun<br>• cael ei gwblhau ar wahân |

## Trefniadau ar gyfer asesu cychwynnol

Mae asesu cychwynnol yn rhan bwysig o'r broses asesu. (Pan fo'r canllawiau hyn yn cyfeirio at asesu cychwynnol mae'n golygu'r asesu dechreuol y mae rheoliad 6 o [Reoliadau Addysg (Trefniadau ar gyfer Asesu yn y Cwricwlwm i Gymru) 2022]() yn eu gwneud yn ofynnol.) Rhaid i'r asesu cychwynnol gael ei gynnal o fewn 6 wythnos ar ôl i blentyn ddechrau cael addysg feithrin a ariennir. Rydyn ni'n gwybod y gall ymuno â lleoliad newydd fod yn newid mawr ac, o bosibl, yn her fawr i blant bach. Ni ddylen ni ruthro i gynnal asesu cychwynnol. Yn lle hynny, dylen ni roi'r amser sydd ei angen ar blant i setlo, a fydd hefyd yn rhoi amser i ni feithrin cydberthnasau cryf.

Dylai ein trefniadau asesu cychwynnol werthfawrogi safbwyntiau rhieni a gofalwyr a'u cynnwys, er mwyn helpu i greu darlun o sgiliau a gwybodaeth unigryw pob plentyn, ochr yn ochr â'i ddiwylliant a'i gefndir. Dylen ni ddefnyddio'r wybodaeth werthfawr hon i lywio ein hasesiadau. Yn ddelfrydol, dylai mwy nag un ymarferydd arsylwi plant, a dylen ni rannu arsylwadau a chydweithio er mwyn sicrhau asesiadau cywir a holistaidd. Rhaid i'r trefniadau hyn, sy'n asesu lles, sgiliau a galluoedd plant, gynnwys y pedwar maes gorfodol o fewn asesu: lles, gan gynnwys **datblygiad cymdeithasol ac emosiynol**, a **datblygiad corfforol**; sgiliau a galluoedd o ran **llythrennedd** a **rhifedd**.

Dylai asesiadau sy'n canolbwyntio ar y plentyn ein helpu i ganfod yr hyn y mae plant yn ei wybod a'r hyn y gallan nhw ei wneud. Ni ddylai'r trefniadau hyn ein hatal rhag rhyngweithio â phlant nac achub ar gyfleoedd dysgu digymell. Dylen ni sicrhau ein bod ni'n cofnodi ein harsylwadau mewn ffordd gryno a hydrin sy'n gweithio'n dda ar gyfer ein lleoliad ni. Mae'n bosibl y bydd rhai plant yn mynychu mwy nag un lleoliad a dylen ni weithio'n agos gyda'r lleoliad arall i rannu gwybodaeth berthnasol. Mae trafodaethau proffesiynol yn ein helpu i feithrin dealltwriaeth gyffredin o gryfderau, anghenion a diddordebau plant unigol. Dylen nhw ein helpu i wneud penderfyniadau am y ffordd orau o helpu plant i wneud cynnydd. Gall trefniadau cychwynnol effeithiol ein helpu i nodi plant y gall fod angen cymorth ychwanegol arnyn nhw drwy ymyriadau cynnar neu her. Efallai y bydd angen i ni geisio cymorth a chyngor gan asiantaethau allanol.



## Cwestiynau myfyriol

- Pa mor dda ydyn ni wedi ystyried y cwestiynau myfyriol am ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn ar dudalen 44 o Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir?
- A ydyn ni wedi treulio'r 6 wythnos cyfan yn gwneud arsylwadau ac yn casglu amrywiaeth eang o wybodaeth asesu ar gyfer pob plentyn?
- I ba raddau rydyn ni'n coladu ac yn crynhoi gwybodaeth asesu ar gyfer pob plentyn?
- A ydyn ni wedi cynnwys asesiadau o sgiliau a galluoedd plant ym maes lles, gan gynnwys datblygiad corfforol, cymdeithasol ac emosiynol, a llythrennedd a rhifedd?

Ar ddiwedd y 6 wythnos cyntaf, dylen ni goladu a chrynhoi'r wybodaeth asesu a'i rhannu â rhieni a gofalwyr.

Cyflwynir y meysydd asesu gorfodol ar dudalen 26 fel cyfres o gwestiynau i ni eu hystyried wrth arsylwi plant yn ein lleoliad yn ystod y 6 wythnos cyntaf. Ar dudalennau 27 i 41, ategir y cwestiynau hyn gan enghreifftiau o'r hyn y gallwn ni ei arsylwi a'i gofnodi mewn perthynas â datblygiad, dysgu a chynnydd plant wrth chwarae a dilyn arferion dyddiol. Nid yw'r disgrifiadau yn hollgynhwysfawr. Dylen ni eu defnyddio i ategu ein harsylwadau ar y cyd wrth asesu cynnydd plant.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Asesu lles: datblygiad cymdeithasol ac emosiynol** | Sut mae'r plentyn yn dangos ei fod yn hapus, yn fodlon ac wedi setlo? | Sut mae'r plentyn yn ymateb i strategaethau **cydreoli**? | Sut mae'r plentyn yn meithrin cydberthnasau ag eraill yn y lleoliad? | | | |
| **Asesu lles: datblygiad corfforol** | Sut mae'r plentyn yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol? | Pa mor hyderus yw'r plentyn wrth chwarae'n gorfforol? | Sut mae'r plentyn yn dangos ymwybyddiaeth gorfforol wrth symud? | Pa mor gydgysylltiedig yw **sgiliau echddygol bras** y plentyn? | Pa mor gydgysylltiedig yw **sgiliau echddygol manwl** y plentyn? | |
| **Asesu sgiliau a galluoedd llythrennedd plant** | Sut mae'r plentyn yn dangos ei fod yn gwrando? | Sut mae'r plentyn yn dangos ei fod yn deall iaith? | Sut mae'r plentyn yn ymuno â straeon, caneuon a rhigymau? | Sut mae'r plentyn yn rhyngweithio ag eraill? | Sut mae'r plentyn yn dangos ei fod yn deall cysyniadau a geirfa? | |
| | Sut mae'r plentyn yn sicrhau bod pobl yn ei ddeall? | Sut mae'r plentyn yn datblygu ei eirfa? | Sut mae'r plentyn yn dangos diddordeb mewn llyfrau a deunyddiau darllen eraill? | Sut mae'r plentyn yn sylwi ar symbolau yn yr amgylchedd? | Sut mae'r plentyn yn defnyddio marciau i gyfathrebu? | |
| **Asesu sgiliau a galluoedd rhifedd plant** | Sut mae'r plentyn yn dangos ei fod yn sylwi ar nodweddion tebyg a gwahanol? | Sut mae'r plentyn yn sylwi ar symbolau yn yr amgylchedd ac yn dechrau adnabod bod ystyr iddyn nhw? | Sut mae'r plentyn yn cyfleu ei ffordd o feddwl rhifyddol drwy wneud marciau? | Sut mae'r plentyn yn dangos ei fod yn deall cysyniadau syml ym maes rhifedd? | Sut mae'r plentyn yn dangos dealltwriaeth o swm neu nifer? | Sut mae'r plentyn yn dangos dealltwriaeth o batrwm? |

## Asesu lles: datblygiad cymdeithasol ac emosiynol

Mae teimlo'n gysylltiedig ac yn ddiogel yn elfennau allweddol o les cadarnhaol a gallan nhw hybu ymdeimlad cryf o berthyn. Fel oedolion sy'n galluogi dysgu, mae gennym ni rôl allweddol i'w chwarae wrth greu amgylcheddau sy'n ddiogel yn emosiynol sy'n helpu plant i ddechrau adnabod a rheoli eu teimladau a'u hymddygiad mewn ffyrdd cadarnhaol. Dylen ni sicrhau bod plant yn teimlo'n ddiogel yn amgylchedd y lleoliad. Er mwyn meithrin ymdeimlad cadarn o berthyn i bob plentyn, dylen ni ddangos gofal diffuant, cynnig cymorth emosiynol a pharchu ei gefndir diwylliannol. Gall yr ymlyniadau a'r cydberthnasau cadarn hyn helpu plant i fagu hunanhyder, gan sicrhau eu bod nhw'n gallu gwneud dewisiadau gwell, eu bod nhw'n fwy gwydn ac annibynnol, a'u bod nhw'n cymryd rhan gadarnhaol mewn gweithgareddau pob dydd.

Mae'n hanfodol ein bod ni'n neilltuo amser i ddod i adnabod y plentyn a deall ei gefndir unigryw, gan gynnwys ei ddiwylliant a'i gefndir ieithyddol, yn ogystal â'i brofiadau blaenorol, er mwyn creu darlun holistaidd o bob plentyn i sicrhau y gallwn ni ddiwallu ei anghenion cymdeithasol ac emosiynol.

**Sut mae'r plentyn yn dangos ei fod yn hapus, yn fodlon ac wedi setlo?**

Efallai y bydd y plentyn yn gwahanu oddi wrth ei riant neu ofalwr weithiau gyda chymorth oedolyn neu **wrthrych pontio**.

Efallai y bydd y plentyn yn ymdopi â newidiadau gydol y sesiwn ac yn dilyn yr arferion dyddiol.

Efallai y bydd y plentyn yn awyddus i archwilio'r lleoliad a chymryd rhan mewn amrywiaeth eang o brofiadau.

Efallai y bydd y plentyn yn dangos diddordeb mewn helpu gyda thasgau syml fel gosod y bwrdd ar gyfer amser byrbryd.

Efallai y bydd y plentyn yn dangos pryder a hoffter wrth ryngweithio o ddydd i ddydd.

**Sut mae'r plentyn yn ymateb i strategaethau cydreoli?**

Efallai y bydd y plentyn yn mynegi ei anghenion emosiynol, gan ddefnyddio geiriau, ystumiau neu weithredoedd.

Efallai y bydd y plentyn yn dangos ymwybyddiaeth o deimladau eraill ac yn ymateb iddyn nhw, er enghraifft cysuro eraill os byddan nhw'n ofidus.

Gyda chymorth gan oedolyn, efallai y bydd y plentyn yn rheoli ei ymatebion i'w deimladau a'i emosiynau.

Efallai y bydd y plentyn yn ymwybodol o'i deimladau ei hun ac yn eu mynegi mewn ffordd briodol.

Efallai y bydd y plentyn yn troi at oedolion y mae'n ymddiried ynddyn nhw am dawelwch meddwl a chymorth i reoli ei ymateb i deimladau mawr.

**Sut mae'r plentyn yn meithrin cydberthnasau ag eraill yn y lleoliad?**

Efallai y bydd y plentyn yn meithrin cydberthnasau agos â'i weithiwr allweddol ac oedolion eraill sy'n gweithio yn y lleoliad.

Efallai y bydd y plentyn yn cynnig neu'n ceisio cysylltiadau cynnes ag eraill.

Efallai y bydd y plentyn yn chwarae ochr yn ochr ag eraill neu gydag eraill sy'n mwynhau'r un gweithgareddau â nhw, weithiau gyda chymorth gan oedolyn.

Efallai y bydd y plentyn yn dangos ei fod yn gallu cyd-dynnu a dod i ddatrysiad, weithiau gyda chymorth.

Efallai y bydd y plentyn yn rhannu profiadau o gartref, ei ddiwylliant a'i gymuned, er enghraifft drwy ddod ag eitemau o gartref i'w rhannu â ffrindiau.

# Asesu lles: datblygiad corfforol

Mae sgiliau corfforol plentyn yn rhan bwysig o'i ddatblygiad holistaidd ac yn effeithio ar bob agwedd ar ei dwf a'i ddysgu. Dylen ni fod yn hyderus o ran ein dealltwriaeth o gynnydd o fewn datblygiad corfforol er mwyn i ni allu asesu sgiliau corfforol plant yn gywir. Mae'n arbennig o bwysig wrth asesu ac arsylwi datblygiad plentyn ein bod ni'n ystyried yr effaith y mae'n ei chael ar ei ddatblygiad emosiynol, cymdeithasol a gwybyddol. Mae angen amser, lle a rhyddid ar blant bach i archwilio a meithrin eu sgiliau mewn amrywiaeth o gyd-destunau y tu mewn a'r tu allan. Drwy gynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd datblygu corfforol, rydyn ni'n cefnogi plant i feithrin eu gwydnwch, eu hyder a'u hannibyniaeth.

**Sut mae'r plentyn yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol?**

Efallai y bydd y plentyn yn dangos diddordeb mewn symud, a all gynnwys symud drosto'i hun, cael ei symud a/neu symud pethau.

Efallai y bydd y plentyn yn treulio cyfnodau hir o amser yn gwneud mathau penodol o chwarae corfforol, er enghraifft mynd ar gefn beic, cloddio neu gicio pêl.

Efallai y bydd y plentyn yn ymestyn ei chwarae corfforol gan ddefnyddio adnoddau ychwanegol a/neu drwy arbrofi â symudiadau gwahanol.

Efallai y bydd y plentyn yn dewis gweithgarwch corfforol i brofi ei hun a mentro.

| | |
|---|---|
| **Pa mor hyderus yw'r plentyn wrth chwarae'n gorfforol?** | Efallai y bydd y plentyn yn cymryd amser i edrych ar yr amgylchedd a gwylio eraill cyn rhoi cynnig arni ei hun, naill ai'n annibynnol neu gyda chymorth.<br><br>Efallai y bydd y plentyn yn defnyddio dull profi a methu drwy ailadrodd gweithredoedd er mwyn datblygu a mireinio ei chwarae corfforol.<br><br>Efallai y bydd y plentyn yn gallu rheoli risgiau drwy ddewis cymryd rhan neu beidio, a gofyn am help neu beidio.<br><br>Efallai y bydd y plentyn yn dod yn fwy parod i fentro neu'n dibynnu llai ar anogaeth gan eraill.<br><br>Efallai y bydd y plentyn yn dangos natur benderfynol i herio'i hun yn gorfforol drwy fanteisio ar amrywiaeth ehangach o brofiadau corfforol. |
| **Sut mae'r plentyn yn dangos ymwybyddiaeth gorfforol wrth symud?** | Efallai y bydd y plentyn yn dechrau archwilio ac arbrofi â symud a safle yn y lle o'i amgylch.<br><br>Efallai y bydd y plentyn yn dangos sgiliau cydsymud wrth symud ei gorff o fewn ac o amgylch lleoedd.<br><br>Efallai y bydd y plentyn yn dangos ei fod yn gallu symud ei hun mewn perthynas â'i allu corfforol a'r lle a'r adnoddau sydd ar gael yn yr amgylchedd.<br><br>Efallai y bydd y plentyn yn dangos sgiliau hunangymorth, er enghraifft drwy ddadwisgo a gwisgo drosto'i hun, neu baratoi a bwyta byrbryd. |

**Pa mor gydgysylltiedig yw sgiliau echddygol bras y plentyn?**

Efallai y bydd y plentyn yn cadw cydbwysedd a chydsymud mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

Efallai y bydd y plentyn yn cydgysylltu dwy ochr ei gorff ar yr un pryd, er enghraifft drwy gropian drwy dwnnel.

Efallai y bydd y plentyn yn gwneud ystod amrywiol o symudiadau, er enghraifft dringo, cicio a thaflu.

Efallai y bydd y plentyn yn **croesi'r llinell ganol** ac yn defnyddio dwy ochr ei gorff ar yr un pryd.

Efallai y bydd y plentyn yn gwneud symudiadau mewn trefn, er enghraifft dringo ysgol cyn mynd i lawr y llithren, neu gicio pêl sy'n symud.

**Pa mor gydgysylltiedig yw sgiliau echddygol manwl y plentyn?**

Efallai y bydd y plentyn yn cydgysylltu ei lygaid, ei ddwylo a'i fysedd â deheurwydd a chryfder, er enghraifft drwy wthio switsh, cydio mewn gwrthrychau bach a defnyddio offer a chyfarpar.

Efallai y bydd y plentyn yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau gwneud marciau mewn ffordd bwrpasol ac effeithiol.

Efallai y bydd y plentyn yn cydgysylltu ei lygaid, ei ddwylo a'i fysedd i archwilio a defnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau, er enghraifft drwy rolio, torri, pinsio a gwasgu.

Efallai y bydd y plentyn yn defnyddio ei ddwy law gyda'i gilydd, er enghraifft drwy ddal pêl neu ddal llyfr ag un llaw a throi'r tudalennau â'r llall.

Efallai y bydd y plentyn yn cydgysylltu ei symudiadau at ddiben, er enghraifft er mwyn paratoi a bwyta byrbrydau.

## Asesu sgiliau a galluoedd llythrennedd plant

Mae sgiliau llythrennedd cynnar plant yn seiliedig ar ddatblygiad eu lleferydd, eu hiaith a'u cyfathrebu. Dylai asesiad effeithiol nodi cymhwysedd plentyn o ran ei leferydd, ei iaith a'i gyfathrebu. Efallai y bydd plant sy'n dysgu mwy nag un iaith yn cyfnewid rhyngddyn nhw a dylen ni sylwi ar hyn ac adeiladu arno. Dylen ni fod yn hyderus o ran ein dealltwriaeth o'r ffordd y mae sgiliau llythrennedd plant yn datblygu er mwyn i ni allu asesu a chefnogi cynnydd yn gywir. Mae nifer o ffactorau risg a all effeithio ar anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu hirdymor plentyn. Mae'r rhain yn cynnwys **ffactorau ffisiolegol**, **ffactorau teuluol ac amgylcheddol** a **ffactorau cyfathrebu**. Dylen ni ystyried y ffactorau risg hyn er mwyn helpu i greu darlun holistaidd o sgiliau llythrennedd plentyn, a fydd yn sicrhau ein bod ni'n gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth am y camau nesaf ar gyfer pob plentyn unigol.

**Sut mae'r plentyn yn dangos ei fod yn gwrando?**

Efallai y bydd angen rhoi ciw corfforol neu eiriol i'r plentyn er mwyn tynnu ei sylw.

Efallai y bydd y plentyn yn gallu canolbwyntio ar un profiad ar y tro ac efallai y bydd angen cymorth oedolyn arno i droi ei sylw at rywbeth arall.

Efallai y bydd y plentyn yn talu sylw cynyddol wrth wrando.

Efallai y bydd y plentyn yn gallu troi ei sylw yn annibynnol i wrando ar eraill.

Efallai y bydd y plentyn yn gallu gwneud dau beth ar yr un pryd, er enghraifft chwarae â blociau a chyd-ganu caneuon.

| | |
| --- | --- |
| **Sut mae'r plentyn yn dangos ei fod yn deall iaith?** | Efallai y bydd y plentyn yn ymateb i gyfarwyddiadau neu awgrymiadau syml, ar ffurf lafar neu ddieiriau, ac yn eu dilyn.<br><br>Efallai y bydd y plentyn yn dechrau gofyn cwestiynau er mwyn meithrin ei ddealltwriaeth.<br><br>Efallai y bydd y plentyn yn ymateb yn briodol i gwestiynau syml.<br><br>Efallai y bydd y plentyn yn ymateb i gyfarchiad ar ffurf lafar neu ddieiriau. |
| **Sut mae'r plentyn yn ymuno â straeon, caneuon a rhigymau?** | Efallai y bydd y plentyn yn dangos diddordeb mewn stori, cân neu rigwm, er enghraifft drwy symud yn agosach er mwyn gallu gwrando.<br><br>Efallai y bydd y plentyn yn ymuno drwy gyfrannu ystumiau, synau neu geiriau syml, neu ddangos mwynhad.<br><br>Efallai y bydd y plentyn yn canu neu'n perfformio caneuon a rhigymau cyfarwydd wrth chwarae.<br><br>Efallai y bydd y plentyn yn ymuno â rhannau cyfarwydd o straeon, caneuon a rhigymau sy'n hawdd eu rhagfynegi. |

| | |
|---|---|
| **Sut mae'r plentyn yn rhyngweithio ag eraill?** | Efallai y bydd y plentyn yn rhyngweithio ag eraill ar ffurf lafar neu ddieiriau, gan ymateb i giwiau a defnyddio iaith y corff, cyswllt llygad neu ystumiau fel pwyntio.<br><br>Efallai y bydd y plentyn yn dangos diddordeb yn yr hyn y mae plant eraill yn chwarae gyda, ac yn ymuno â'r chwarae.<br><br>Efallai y bydd y plentyn yn dechrau cyfathrebu ag eraill er mwyn cynnal y chwarae.<br><br>Efallai y bydd y plentyn yn siarad ag eraill am bethau sydd o ddiddordeb iddo.<br><br>Efallai y bydd y plentyn yn dechrau meithrin ei ddealltwriaeth o reolau sgwrs, er enghraifft drwy gymryd troeon wrth gyfathrebu ag oedolion a phlant eraill. |
| **Sut mae'r plentyn yn dangos ei fod yn deall cysyniadau a geirfa?** | Efallai y bydd y plentyn yn dangos dealltwriaeth o gysyniadau drwy ei chwarae, er enghraifft drwy archwilio 'trwm' ac 'ysgafn' wrth chwarae â thywod.<br><br>Efallai y bydd y plentyn yn defnyddio geirfa briodol yn ystod arferion dyddiol, wrth chwarae ac wrth wrando ar eraill ac ymateb iddyn nhw.<br><br>Efallai y bydd y plentyn yn defnyddio amrywiaeth o eirfa mewn cyd-destunau gwahanol. |

**Sut mae'r plentyn yn sicrhau bod pobl yn ei ddeall?**

Efallai y bydd y plentyn yn defnyddio amrywiaeth o ffyrdd i gyfathrebu ag eraill, er enghraifft mynegiant wyneb, ystumiau, synau, arwyddion neu ddulliau gwneud marciau.

Efallai y bydd y plentyn yn cymryd rhan mewn rhyngweithiadau **yn ôl ac ymlaen**.

Efallai y bydd y plentyn yn defnyddio iaith i fynegi ei feddyliau, ei deimladau a'i anghenion.

Efallai y bydd y plentyn yn dyfalbarhau ac yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau i sicrhau bod pobl yn ei ddeall.

Efallai y bydd y plentyn yn dechrau ac yn cymryd rhan mewn sgwrs gan ddefnyddio geiriau unigol neu ymadroddion byr, er mwyn gwneud yn siŵr bod pobl yn ei ddeall.

**Sut mae'r plentyn yn datblygu ei eirfa?**

Efallai y bydd y plentyn yn defnyddio geirfa newydd a ddysgwyd, gan gynnwys enwau, berfau a geiriau sy'n disgrifio, wrth chwarae ac archwilio.

Efallai y bydd y plentyn yn defnyddio geiriau ac ymadroddion o straeon, caneuon a rhigymau mewn cyd-destunau gwahanol wrth chwarae.

Efallai y bydd y plentyn yn defnyddio mwy nag un gair ar gyfer cysyniad, er enghraifft 'bach', 'bychan', 'pitw'.

Efallai y bydd y plentyn yn defnyddio cysyllteiriau i gysylltu syniadau â'i gilydd, er enghraifft 'oherwydd', 'ac', 'neu', 'os'.

Efallai y bydd y plentyn yn defnyddio geiriau i ddisgrifio ble mae pethau wrth chwarae, er enghraifft 'yn', 'ar', 'dros', 'dan', 'y tu ôl', 'o flaen'.

| | |
|---|---|
| **Sut mae'r plentyn yn dangos diddordeb mewn llyfrau a deunyddiau darllen eraill?** | Efallai y bydd y plentyn yn dewis llyfrau a deunyddiau darllen eraill, weithiau gyda chymorth oedolyn.<br><br>Efallai y bydd y plentyn yn gallu archwilio a thrin llyfrau a deunyddiau darllen yn briodol.<br><br>Efallai y bydd y plentyn yn gwneud cysylltiadau rhwng llyfrau a'i brofiadau ei hun.<br><br>Efallai y bydd y plentyn yn ailadrodd digwyddiadau allweddol mewn straeon cyfarwydd.<br><br>Efallai y bydd y plentyn yn defnyddio propiau i ailadrodd straeon a rhigymau cyfarwydd. |
| **Sut mae'r plentyn yn sylwi ar symbolau yn yr amgylchedd?** | Efallai y bydd y plentyn yn dangos ymwybyddiaeth o symbolau cyfarwydd ac yn gwneud cysylltiadau rhyngddyn nhw â'i brofiadau ei hun.<br><br>Efallai y bydd y plentyn yn sylwi ar symbolau ac yn cael ei arwain ganddyn nhw yn ystod ei arferion dyddiol, er enghraifft drwy ddilyn sbardunau gweledol i olchi ei ddwylo.<br><br>Efallai y bydd y plentyn yn adnabod ei enw ei hun, er enghraifft ar begiau cotiau ac wrth hunangofrestru.<br><br>Efallai y bydd y plentyn yn sylwi ar symbolau cyfarwydd sy'n golygu rhywbeth iddo.<br><br>Efallai y bydd y plentyn yn sylwi ar enwau ei ffrindiau a bod rhai enwau yn dechrau gyda'r un llythyren. |

**Sut mae'r plentyn yn defnyddio marciau i gyfathrebu?**

Efallai y bydd y plentyn yn gwneud marciau wrth chwarae, gan ddefnyddio amrywiaeth o offer, adnoddau a defnyddiau.

Efallai y bydd y plentyn yn defnyddio lluniau a marciau i ailadrodd ei brofiadau.

Efallai y bydd y plentyn yn defnyddio marciau newydd i gynrychioli pethau sydd o ddiddordeb iddo, er enghraifft 'tatws' yn yr ardd, neu roi cyfarwyddiadau, er enghraifft 'cadwch allan' yn yr ardal flociau.

Efallai y bydd y plentyn yn defnyddio lluniau a symbolau i gynrychioli ei feddwl a'i ddysgu.

Efallai y bydd y plentyn yn dechrau defnyddio marciau i gynrychioli ei enw ei hun, a all gynnwys siapiau sy'n debyg i lythrennau.

## Asesu sgiliau a galluoedd rhifedd plant

Mae plant yn meithrin dealltwriaeth o iaith, cysyniadau a sgiliau mathemategol drwy chwarae amlsynnwyr a phrofiadau dilys. Dylen ni gydnabod bod mathemateg ym mhobman, a'i bod yn golygu llawer mwy na rhifau. Dylen ni ymdrin â datblygiad mathemategol mewn modd holistaidd a chydnabod bod elfennau o fathemateg a rhifedd ym mhob un o'r pum llwybr datblygu.

Dylen ni arsylwi plant wrth iddyn nhw chwarae a rhyngweithio ag adnoddau dilys penagored i'w helpu i ddeall cysyniadau mathemategol mewn bywyd ac arferion pob dydd. Dylen ni ddefnyddio ein harsylwadau i lywio cyfleoedd dysgu digymell, a all gynnwys modelu iaith a sgiliau mathemategol priodol drwy gydol y dydd, mewn cyd-destunau bywyd go iawn, er mwyn helpu plant i feithrin eu **dealltwriaeth gysyniadol** a'u **cymhwysedd strategol**. Dylen ni arsylwi plant wrth iddyn nhw weithio drwy'r broses o ddatrys problemau, a rhoi amser iddyn nhw arsylwi, archwilio, ymchwilio ac arbrofi. Dylid rhoi gwerth ar y broses ddatrys problemau hon fel nod ynddi hi ei hun, ac efallai na fydd bob amser yn arwain at ganlyniad nac ateb.

**Sut mae'r plentyn yn dangos ei fod yn sylwi ar nodweddion tebyg a gwahanol?**

Efallai y bydd y plentyn yn paru gwrthrychau ac yn eu didoli, er enghraifft wrth roi pethau o'r neilltu yn y man priodol.

Efallai y bydd y plentyn yn casglu'r un gwrthrychau ynghyd wrth chwarae. Efallai y bydd yn **cyffredinoli** ac yn casglu pethau tebyg ynghyd, er enghraifft casglu'r holl gerbydau, llysiau neu anifeiliaid ynghyd.

Efallai y bydd y plentyn yn sylwi bod rhai pethau yr un peth, er enghraifft yn ystod amser byrbryd efallai y bydd y plentyn yn sylwi bod gan blentyn arall yr un ffrwyth ag ef.

Efallai y bydd y plentyn yn sylwi pan fydd rhywbeth yn wahanol neu'n eithriad, ac efallai y bydd yn gallu disgrifio rhai o'r nodweddion sy'n debyg ac yn wahanol rhwng pethau.

**Sut mae'r plentyn yn sylwi ar symbolau yn yr amgylchedd ac yn dechrau adnabod bod ystyr iddyn nhw?**

Efallai y bydd y plentyn yn sylwi ar symbolau, er enghraifft labeli sy'n dangos sawl llwyaid o flawd sydd eu hangen i wneud toes chwarae.

Efallai y bydd y plentyn yn dangos ei fod yn deall bod gwahaniaeth rhwng llythrennau a rhifolion.

Efallai y bydd y plentyn yn sylwi bod ystyr i ffotograffau, lluniau a **phrint amgylcheddol**.

**Sut mae'r plentyn yn cyfleu ei ffordd o feddwl rhifyddol drwy wneud marciau?**

Efallai y bydd y plentyn yn rhoi ystyr i symbolau a marciau, er enghraifft er mwyn gwneud cofnodion o'i gasgliadau.

Efallai y bydd y plentyn yn tynnu lluniau a/neu'n gwneud marciau i gynrychioli cyfres o ddigwyddiadau.

Efallai y bydd y plentyn yn gwneud marciau sy'n cyfateb i symiau, er enghraifft 3 chylch ar gyfer 3 mochyn yn stori'r 'Tri Mochyn Bach'.

Efallai y bydd y plentyn yn gwneud marciau sy'n golygu rhywbeth iddo, er enghraifft i ddangos ei oedran.

**Sut mae'r plentyn yn dangos ei fod yn deall cysyniadau syml ym maes rhifedd?**

Efallai y bydd y plentyn yn dangos dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol i ddatrys problemau pob dydd, er enghraifft drwy ddod o hyd i astell hirach i bontio bwlch neu wthio cewyll yn agosach at ei gilydd er mwyn gwneud y bwlch yn llai.

Efallai y bydd y plentyn yn dangos dealltwriaeth o'r cysyniad o 'fwy' yn ystod arferion dyddiol ac wrth chwarae.

Efallai y bydd y plentyn yn dangos dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol wrth chwarae, er enghraifft y cysyniad bod rhywbeth yn 'llawn' drwy lenwi cynwysyddion.

Efallai y bydd y plentyn yn dangos ei fod yn deall maint, siâp, safle a mesurau, er enghraifft drwy ychwanegu rhagor o flociau i wneud tŵr yn dalach.

Efallai y bydd y plentyn yn dangos ymwybyddiaeth o gysyniadau amser, er enghraifft 'cyn ac ar ôl' neu 'ddoe'.

**Sut mae'r plentyn yn dangos dealltwriaeth o swm neu nifer?**

Efallai y bydd y plentyn yn dechrau adnabod pan nad oes digon o rywbeth neu pan fo gormod ohono. Efallai y bydd yn dechrau cymharu symiau, er enghraifft drwy sylwi pan fydd gan rywun fwy o fefus nag sydd ganddo ef, neu pan fydd ganddo lai o geir na'i ffrind.

Efallai y bydd y plentyn dangos ei fod yn deall y gall unrhyw beth gael ei gyfrif wrth chwarae, er enghraifft camau, clapiau a chwpanau.

Efallai y bydd y plentyn yn meithrin ei ddealltwriaeth o **ohebiaeth un i un**, er enghraifft rhoi plât i bob plentyn yn ystod amser byrbryd.

Efallai y bydd y plentyn yn dangos dealltwriaeth o'r broses o **gadwraeth rhif**, er enghraifft os bydd wedi cyfrif 3 côn pinwydd, bydd yn gwybod bod 3 ac nad oes angen eu cyfrif eto.

Efallai y bydd y plentyn yn priodoli rhifau i symiau, er enghraifft drwy ddewis 4 darn o sialc iddo ef ei hun a 3 ffrind.

## Sut mae'r plentyn yn dangos dealltwriaeth o batrwm?

Efallai y bydd y plentyn yn adnabod y gall patrymau a dilyniannau dyfu, er enghraifft drwy bentyrru'r cwpanau mewn trefn o'r mwyaf i'r lleiaf neu wybod, ar ôl i rywun ei gasglu, y bydd yn mynd adref, yn cael cinio ac yna'n mynd i'r parc.

Efallai y bydd y plentyn yn rhoi digwyddiadau mewn trefn resymegol, er enghraifft drwy wisgo sanau cyn sgidiau neu wybod y bydd rhywun yn ei gasglu ar ôl iddo ganu 'Hwyl fawr'.

Efallai y bydd y plentyn yn adnabod patrymau yn yr amgylchedd, er enghraifft stribedi ar sebra mewn llyfr lluniau neu smotiau ar fuwch goch gota yn yr ardd.

Efallai y bydd y plentyn yn ymateb i batrymau clywedol, er enghraifft drwy ddawnsio i'r curiad neu ddrymio â llwy ar sosban.

Efallai y bydd y plentyn yn adnabod patrymau a dilyniannau sy'n ailadrodd, er enghraifft drwy roi dail a blodau am yn ail ar sgiwer yn y gegin fwd.

# Pwyntiau allweddol i'w hystyried wrth gynnal asesu cychwynnol

A ydyn ni wedi treulio digon o amser yn dod i adnabod pob plentyn ac yn meithrin cydberthynas gref ag ef?

A ydyn ni wedi defnyddio'r cyfnod cychwynnol o 6 wythnos yn effeithiol?

A ydyn ni wedi rhoi ystyriaeth deg i'r pedwar maes asesu gorfodol?

A ydyn ni wedi arsylwi'r plant y tu mewn a'r tu allan gydol y dydd?

A ydyn ni wedi seilio ein hasesiadau ar amrywiaeth o arsylwadau o safon, yn hytrach nag ar un digwyddiad?

A ydyn ni'n parchu cyfraniad rhieni a gofalwyr?

A yw ein harsylwadau anymwthiol wedi'u gwneud mewn cyd-destunau dilys?

Ai dim ond ein barn ni yw hyn? A ydyn ni wedi ystyried safbwyntiau eraill?

A ydyn ni'n ystyriol o ragfarn ddiarwybod ac a ydyn ni'n cymryd camau i herio unrhyw ragfarn ddiarwybod a all fod gennym ni fel unigolion neu fel tîm?

A ydyn ni wedi cynllunio ein hamgylchedd fel bod cyfleoedd i'r plant ddefnyddio ac ailedrych ar amrywiaeth o sgiliau?

A ydyn ni wedi ceisio cyngor ac wedi gweithredu arno lle y bo angen?

A yw ein harsylwadau wedi'u gwneud yn ystod cyfnodau di-dor o chwarae?

A yw ein cofnodion yn gywir, yn hydrin ac yn ddefnyddiol, ac a ydyn ni wedi cynnwys dyddiadau?

Sut y byddwn ni'n defnyddio ein hasesu cychwynnol i helpu pob plentyn i ddysgu a datblygu?

# Geirfa

| Cymraeg | Saesneg | Diffiniad |
|---|---|---|
| Agweddau at ddysgu | Dispositions to learning | Y ffordd y mae plant yn cymryd rhan yn y broses ddysgu ac yn uniaethu â hi, er enghraifft â chwilfrydedd, dyfalbarhad a natur chwareus. |
| Arsylwadau anymwthiol | Unobtrusive observations | Ffordd i'r ymarferydd arsylwi plant sy'n brysur yn chwarae. Ni fyddai'r ymarferydd yn ymyrryd yn y chwarae ac ni fyddai'n amlwg i'r plentyn ei fod yn cael ei arsylwi. |
| Cadwraeth rhif | Conservation of number | Y gydnabyddiaeth bod nifer y gwrthrychau yn aros yr un fath hyd yn oed os yw'r gwrthrychau hynny wedi'u haildrefnu. |
| Croesi'r llinell ganol | Cross the midline | Symudiad lle mae rhan o'r corff yn gallu symud yn ddigymell i ran arall o'r corff er mwyn gweithio yno, er enghraifft rhoi'r llaw dde ar yr ysgwydd chwith. |
| Cyd-feddwl parhaus | Sustained shared thinking | Proses lle bydd dau berson neu fwy (oedolion a phlant) yn cydweithio i ystyried problemau gwahanol a dadansoddi cysyniadau gwahanol. |
| Cydreoli | Co-regulation | Caiff y term hwn yn aml ei ddefnyddio ym maes seicoleg. Mae'n cyfeirio at pan fydd y rhai sy'n rhoi gofal yn defnyddio strategaethau i gefnogi neu gysuro plentyn fel y gall ddechrau datblygu sgiliau hunanreoli. |
| Cyffredinoli | Generalise | Y gallu i ddefnyddio sgiliau mewn amgylcheddau newydd a gwahanol. |
| Cyfleoedd dysgu digymell | Teachable moments | Digwyddiadau neu brofiadau annisgwyl neu heb eu cynllunio sy'n cynnig cyfle i ddysgu. Maen nhw'n rhoi cyd-destun ystyrlon i oedolion gyflwyno neu ymhelaethu ar rywbeth sy'n ennyn chwilfrydedd y plentyn. |
| Cymhwysedd strategol | Strategic competence | Gallu plentyn i gymhwyso strategaethau er mwyn llunio a datrys problemau mathemategol a phroblemau eraill (fel problemau gwyddonol), er enghraifft sut i wneud i'r car fynd yn gynt i lawr y bibell. |

| Cymraeg | Saesneg | Diffiniad |
|---|---|---|
| Cymwyseddau | Competencies | Y galluoedd sy'n galluogi plant i gymhwyso neu ddefnyddio cyfres o wybodaeth, sgiliau a galluoedd cysylltiedig. |
| Dealltwriaeth gysyniadol | Conceptual understanding | Dealltwriaeth integredig a gweithredol o syniadau a'u pwysigrwydd. Mae hyn yn aml yn cynnwys syniadau mathemategol neu wyddonol neu syniadau am y ffordd y mae'r byd yn gweithio. |
| Deialog broffesiynol | Professional dialogue | Trafodaethau rhwng ymarferwyr sy'n eu galluogi i rannu eu profiadau a myfyrio arnyn nhw, er mwyn meithrin a chynnal dealltwriaeth gyffredin o gynnydd. Mae'r rhai sy'n rhan o'r trafodaethau yn cyfrannu ar sail gyfartal. |
| Diddordebau arbennig | Fascinations | Pethau sy'n ennyn diddordeb mawr neu fwynhad plentyn. |
| Ffactorau cyfathrebu | Communication factors | Nodweddion ac enghreifftiau o gyfathrebu, er enghraifft clebran, ystumiau a geirfa. |
| Ffactorau ffisiolegol | Physiological factors | Ffactorau megis y clyw, rhywedd adeg geni ac anian. |
| Ffactorau teuluol ac amgylcheddol | Family and environmental factors | Ffactorau megis hanes y teulu o ran anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, statws economaidd-gymdeithasol ac ansawdd y rhyngweithio o fewn y teulu. |
| Ffyrdd newydd o feddwl | Emergent thinking | Y broses lle bydd plant yn datblygu a phrofi damcaniaethau a syniadau drwy archwilio. |
| Galluoedd | Capabilities | Y pŵer neu'r gallu i wneud rhywbeth. |
| Gohebiaeth un i un | One-to-one correspondence | Dealltwriaeth bod pob un rhif yn cyfateb i un gwrthrych pan fydd gwrthrychau'n cael eu cyfrif. Mae hefyd yn ymwneud â phan fydd plant yn gwybod bod rhif yn cyfateb i swm penodol. |

| Cymraeg | Saesneg | Diffiniad |
| --- | --- | --- |
| Grwpiau gwahanol o blant | Different groups of children | Gall y term hwn gyfeirio at blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY); plant o grwpiau ethnig lleiafrifol a chanddyn nhw'r Gymraeg neu'r Saesneg fel iaith ychwanegol; plant â phrofiad o fod mewn gofal, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal; plant ffoaduriaid a cheiswyr lloches; plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr; plant mewn perygl o niwed, cam-drin neu esgeulustod. |
| Gwrthrych pontio | Transitional object | Rhywbeth sy'n rhoi cysur a thawelwch meddwl i blentyn wrth bontio o un lle i le arall, er enghraifft doli, tedi neu flanced. |
| Print amgylcheddol | Environmental print | Print y gellir ei weld mewn bywyd bob dydd, er enghraifft ar arwyddion, logos a labeli. Mae'r term hwn hefyd yn cwmpasu print sy'n gyfarwydd i blant mewn lleoliad, er enghraifft enwau'r plant ar begiau cotiau. |
| Sgiliau echddygol bras | Gross motor skills | Y gallu i reoli symudiadau ac ystumiau'r corff cyfan gyda sgiliau sy'n cynnwys defnyddio sawl grŵp o gyhyrau, er enghraifft rhedeg, neidio, ac ati. |
| Sgiliau echddygol manwl | Fine motor skills | Rheolaeth gyhyrol gywrain lle mae rhai rhannau o'r corff yn symud o fewn ardal gyfyngedig i greu ymatebion manwl, er enghraifft defnyddio cyhyrau bach y dwylo a'r arddyrnau. |
| Rhagfarn ddiarwybod | Unconscious bias | Rhagfarn anfwriadol neu farn ddi-sail o blaid neu yn erbyn un peth, person neu grŵp o gymharu ag un arall, mewn ffordd sy'n cael ei hystyried yn annheg fel arfer. |
| Ymgolli | Wallow | Adeg lle bydd plentyn yn ymddiddori cymaint yn ei brofiadau chwarae a dysgu nes y gall fod yn anodd tynnu ei sylw. Cafodd y term '*wallow*' (sef 'ymgolli") ei boblogeiddio gan yr Athro Tina Bruce yn *Learning Through Play, 2nd Edition for Babies, Toddlers and Young Children* (2011). |
| Yn ôl ac ymlaen | Serve and return | Pan fydd plentyn yn gwneud arwydd a bydd oedolyn yn ymateb yn briodol. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth ar-lein (Saesneg yn unig). |

© Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG48708, ISBN digidol 978-1-83504-966-2
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg